**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Mawrth 2008**

## GEMAU DIFFODDWYR TÂN Y BYD

**Adroddiad gan Chris Enness,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr adroddiad

**1.** Rhoi gwybod i Aelodau am ddigwyddiad rhyngwladol sy'n digwydd yng Nglannau Merswy gyda rhai gweithgareddau yn cymryd lle yng Ngogledd Cymru.

### Gwybodaeth

**2.** Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Merswy yn cynnal 10fed Gemau Diffoddwyr Tân y Byd. Bydd pedwar o gystadlaethau'r Gemau yn cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru. Dyma'r digwyddiadau:

| Digwyddiad | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|
| Caiacio | 26/27 Awst | Melin Mile End, Ffordd Berwyn, Llangollen |
| Pysgota yn y môr | 26/27 Awst | Arfordir Gogledd Cymru, hwylio o Lerpwl a'r Rhyl |
| Ras Rafft | 27 Awst | Melin Mile End, Ffordd Berwyn, Llangollen |
| Beicio Mynydd | 2 Medi | Canolfan Ymwelwyr Coed Llandegla, Llandegla, Wrecsam |

**Cefndir**

**3.** Sefydlwyd Gemau Diffoddwyr Tân y Byd gan fentrwr Americanaidd a phwyllgor o ddiffoddwyr tân ddaeth at ei gilydd i gynnal Gemau Diffoddwyr Tân y Byd cyntaf yn Auckland, Seland Newydd yn 1990. Roedd y digwyddiad cyntaf yma'n llwyddiant ysgubol gan roi Gemau Diffoddwyr Tân y Byd ar y map rhyngwladol, gan ddenu miloedd o athletwyr a'u cefnogwyr ar draws y byd.

**4.** Cynhaliwyd ail Gemau Diffoddwyr Tân y Byd yn Las Vegas yn 1992 ac wedi hyn, cynhaliwyd y gemau bob dwy flynedd. Yn 1994, trosglwyddwyd perchnogaeth y digwyddiad i bwyllgor o ddiffoddwyr tân yn Perth, Gorllewin Awstralia, a lwyfannodd Gemau Diffoddwyr Tân y Byd llwyddiannus yn yr un flwyddyn. Mae Corff Llywodraethwyr Gemau Diffoddwyr Tân y Byd Gorllewin Awstralia wedi parhau i wthio'r digwyddiad hwn ymlaen ac o'r herwydd gwelwyd y gemau yn cael eu cynnal yn y lleoliadau rhyngwladol canlynol:

1996 – Edmonton, Canada
1998 – Durban, De Affrica
2000 – Mantes, Ffrainc
2002 – Christchurch, Seland Newydd
2004 – Sheffield, Lloegr
2006 - Hong Kong, Tsieina

**5.** Bydd Gemau Diffoddwyr Tân y Byd 2008 yn cael eu cynnal yn Lerpwl rhwng 25 Awst - 3 Medi ac yn ariannu eu hunain gydag unrhyw weddill yn cael ei ail-fuddsoddi mewn elusennau lleol. Lerpwl yw Prifddinas Diwylliant Ewrop yn ystod 2008 hefyd, gyda Gemau Diffoddwyr Tân y Byd yn chwarae rôl bwysig iawn yng nghalendr Prifddinas Diwylliant.

**6.** Arena glan y dŵr newydd sbon Lerpwl fydd Pentref y Gemau dros gyfnod y digwyddiad. Bydd gwahanol gystadlaethau – o wyddbwyll i wreslo – yn cael eu cynnal yn Arena a Chanolfan Gynhadledd Lerpwl, a gostiodd £142 miliwn, ac sy'n cynnig y cyfleusterau diweddaraf i fwynhau'r digwyddiad.

**Cefndir** *(parhad)*

**7.** Bydd Gemau Diffoddwyr Tân y Byd yn denu dros 5000 o gystadleuwyr ar draws y byd, a thra bod y pwyslais ar gymryd rhan, mae'r cystadlu'n ffyrnig a'r tro diwethaf i'r Gemau gael eu cynnal yn y DU (yn Sheffield), torrwyd dwy record Brydeinig.

**8.** Mae rhagor o fanylion am y Gemau 08 ar wefan: www.wfg08.com

**Argymhelliad**

**9.** Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth.